# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 15 Mai 2001

## Dechreuodd y Sesiwn am 2.00pm

**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 9 yn ôl

**Datganiad: Y Diweddaraf ar Effaith Clwy'r Traed a'r Genau.** Ni wnaed y datganiad

**2.37pm**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**2.46pm**
**Cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001**
*NDM653* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

Ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:**
O Blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43
**Cytunwyd ar egwyddor y Gorchymyn**

*NDM654* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:
ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion o dan Reol Sefydlog 11.5 sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001;

cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn:**
O Blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 41
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.01pm**
**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**Dadl ar Corus**

*NDM657*- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn,

Gresynu at benderfyniad Cwmni Corus i fwrw ymlaen i ddiswyddo dros 3000 o'i weithwyr yng ngweithfeydd prosesu dur Cymru, gan gynnwys cau gweithfeydd cyfan yng Nglyn Ebwy a Bryngwyn a gwneud toriadau sylweddol yn Shotton a Llanwern.

Croesawu'r pecyn gwerth £66 miliwn o gymorth a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog Cymru ar 3 Mai ar gyfer y gweithwyr dur a'r cymunedau hynny a fu'n ddibynnol ar y diwydiant dur.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru) Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**

Ar ôl "Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn" ychwaneger paragraff newydd "Condemnio'r arferion rheoli a ddefnyddiwyd gan gyfarwyddwyr Grwp Corus yn y mater hwn."

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ym mharagraff 1 rhodder 'dros 4000' yn lle 'dros 3000'

**3. William Graham (Dwyrain De Cymru) Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**

Ar ôl "Llanwern" ychwaneger ", ond yn condemnio'r beichiau ychwanegol a osodwyd ar ysgwyddau diwydiannau gweithgynhyrchu yn arbennig, drwy drethi uchel, mwy o fiwrocratiaeth ac Euro gwan a fydd, yn anochel, yn dinistrio unrhyw fantais gystadleuol".

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwaneger dau gymal newydd ar ddiwedd paragraff 1:

Cydnabod bod polisïau ariannol Llywodraeth y DU wedi cyfrannu'n sylweddol at broblemau'r diwydiant dur

Gresynu na chymerodd Llywodraeth y DU unrhyw gamau i gynnal màs critigol y diwydiant dur yn y DU a'i bod wedi gwrthod ystyried cynigion i ailwladoli'r diwydiant

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru) Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**

Ychwaneger ail baragraff newydd:

"Nodi â phryder bod colli'r swyddi hyn o'r diwydiant dur, yn barhad o'r patrwm o ostyngiad mewn swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru".

**6. William Graham (Dwyrain De Cymru) Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**

Yn yr ail baragraff:

1. dileer "Croesawu’r" a rhodder "Cydnabod bod raid i £50 miliwn o’r" ar ddechrau’r ail baragraff.

2. dileer yr "atalnod llawn" ar ddiwedd y paragraff, ac ychwaneger , "gael ei ailddyrannu o wasanaethau eraill y Cynulliad".

**7. William Graham (Dwyrain De Cymru) Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**
Ychwaneger trydydd paragraff newydd:

Er yn cydnabod sefydlu Gweithgor y Cabinet ar Corus, dylid ymestyn ehangder y profiad a’r agwedd drwy:

- newid y teitl i Weithgor y Cynulliad ar Corus,
- gynnwys aelod o bob un o’r pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad,
- gynnwys o leiaf dau gynrychiolydd o’r diwydiant sector preifat,
- gynnal archwiliad sgiliau er mwyn sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant yn cael eu targedu at wneud y gorau o’r cyfleoedd sy’n bodoli ar gyfer dod o hyd i swyddi newydd.

**8. William Graham (Dwyrain De Cymru) Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**
Ychwaneger fel paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Ymhellach, mae’r Cynulliad hwn yn cydnabod mai dim ond mynd i’r afael â symptomau problem economaidd ehangach y mae cefnogaeth ariannol o’r fath ac mae’n galw ar y Weinyddiaeth Democratiaid Rhyddfrydol/Llafur i:

- Lobïo Llywodraeth y DU i gyflwyno polisïau ar gyfer gwella amodau gweithredu ar gyfer cynhyrchwyr, ac i
- Roi’r gorau i unrhyw gynlluniau i gyflwyno treth fusnes leol.

**9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger ddau gymal newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith mai dim ond £8 miliwn o’r pecyn gwerth £66 miliwn sydd wedi dod o Lywodraeth y DU gydag £8 miliwn yn dod o’r Undeb Ewropeaidd a’r £50 miliwn arall yn dod allan o gyllideb arferol y Cynulliad Cenedlaethol

Yn cydnabod y bydd cyfanswm adferiad economaidd llawn, gan gynnwys Cymorth Dewisol Rhanbarthol ar gyfer swyddi i ddisodli’r rhai a gollwyd ar y safle, a chostau’r seilwaith newydd, yn £200 miliwn, ac mae’n annog Llywodraeth Cymru i roi pwysau ar Drysorlys y DU am arian digonol sy’n ychwanegol at ddyraniad Barnett er mwyn sicrhau adferiad llawn.

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42
**Cymeradwywyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43
**Cymeradwywyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 43
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 32; Cyfanswm 43
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 19; Ymatal 0; Yn erbyn 24; Cyfanswm 43
**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 43
**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O Blaid 8; Ymatal 10; Yn erbyn 25; Cyfanswm 43
**Gwrthodwyd gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O Blaid 8; Ymatal 11; Yn erbyn 24; Cyfanswm 43
**Gwrthodwyd gwelliant 8**

**Gwelliant 9**
O Blaid 19; Ymatal 0; Yn erbyn 24; Cyfanswm 43
**Gwrthodwyd gwelliant 9**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 8; Cyfanswm 43
**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.22pm**
**Dadl ar flaenraglenni gwaith strategol y Pwyllgorau**
*NDM656* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 9.9, yn nodi Blaenraglenni Gwaith Strategol ac Adroddiadau Cynnydd Pwyllgorau Pwnc y Cynulliad Cenedlaethol ar Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Diwylliant a Llywodraeth Leol a Thai, a e-bostiwyd at Aelodau ar 8 Mai 2001.

**Cymerwyd pleidlais:**
O Blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 23
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.53pm**

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 17 Mai 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 10 MAI 2001**

Economic Development Committee - Forward Work Programme May 2001 - December 2002- LD784 - Copïau Cymraeg ar gael

Economic Development Committee - Report to Plenary - LD783 - Copïau Cymraeg ar gael

Pwyllgor Yr Amgylchedd, Cynllunio A Thrafnidiaeth - Adroddiad I'r Cyfarfod Llawn O Dan Reol Sefydlog 9.9 - LD782

Education and Lifelong Learing Committee - Report to Plenary - LD781 -Copïau Cymraeg ar gael

Education and Lifelong Learning Committee - Strategic and Detailed Forward Work

Programme - LD780- Copïau Cymraeg ar gael